ATODIAD 1 - CYNLLUN GWEITHREDU CAERDYDD DDWYIEITHOG 2021/21

Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc					
CYF	**BLAENORIAETH**	**AMCANION**	**TARGED**	**AMSERLEN**	**DIWEDDARIAD**
1.1	**Hyrwyddo manteision Addysg Gymraeg i holl gymunedau Caerdydd a rhoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith**	Cynnig rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau Cymraeg i'r teulu a chyrsiau i deuluoedd mewn ardaloedd adfywio	6 chwrs	Medi 2019 – Awst 2020	Darparodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gwrs Cymraeg yn y Cartref ar-lein o fis Tachwedd 2020 i fis Mai 2021. Mae Cymraeg yn y Cartref wedi disodli'r cwrs Cymraeg i'r Teulu blaenorol. **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
		Gweithio gydag ysgolion a'r unedau meithrin Cymraeg er mwyn cynnig gwersi i rieni a darpar rieni	6 chwrs	Medi 2019 – Awst 2020	Darparodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ddau gwrs blasu ar-lein i rieni plant yn Ysgol Gyfun Bro Edern ym mis Rhagfyr 2020. **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
		Cynnig sesiynau blasu Cymraeg i Oedolion ar gyfer cyrsiau i'r rhai sy'n dymuno gwella neu gyflawni rhuglder.	1000 o ddysgwyr Cymraeg.	Medi 2019 – Awst 2020	Mae amrywiaeth o gyrsiau prif ffrwd, cyrsiau yn y gweithle, a chwrs Haf, wedi'u cyflwyno gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ers mis Ebrill 2020. **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
1.2	**Gwella darpariaeth a safonau'r Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg trwy gyfrwng Cynllun**	Gweinyddu a chydlynu rhaglen lawn o ofal gwyliau, gweithgareddau chwarae a hamdden i blant 4-11 oed gan gynnwys gofal dydd,	10 wythnos o ofal gwyliau yn denu 400 o blant yr wythnos	O Ebrill 2019 ac yn flynyddol wedi hynny.	Nid yw ein cynlluniau gofal gwyliau yn ystod y dydd wedi bod yn weithredol hyd yma eleni ond mae'r Fenter wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i staffio dau gynllun Hyb ar gyfer plant sy'n agored i niwed am bedair wythnos gyntaf yr haf. Ni fyddai'r

	Strategol Cymraeg mewn Addysg	sesiynau chwarae agored a gweithgareddau hamdden yn ogystal ag amryw weithgareddau gwyliau i bobl ifanc 11-16 oed.	7 wythnos o chwarae agored mewn 6 ardal, yn denu 500 o blant yr wythnos Lleiafswm o 8 gweithgaredd hamdden y tymor yn ystod gwyliau ysgol, yn denu 200 o blant/pobl ifanc i gofrestru bob blwyddyn		cynlluniau hyn wedi bod ar gael yn Gymraeg heb gefnogaeth y Fenter. Mae Gwasanaethau Chwarae Agored Bwrlwm (a gynigir am ddim) wedi cael eu darparu gan Menter ym mhenwythnos olaf yr Haf mewn 3 lleoliad gwahanol. Mae ein darpariaeth o weithgareddau a chlybiau wedi'i symud ar-lein ac mae wedi cynnal 15 o weithgareddau teuluol, 48 ar gyfer plant a phobl ifanc, 15 ar gyfer y gymuned/oedolion yn chwarteri 1 a 2. Cafodd gweithgareddau ar-lein i staff/myfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro i'w cynnal ar gyfer plant Menter eu cynnal ym mis Chwefror a thros y Pasg. **Menter Caerdydd**
		Rhoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017 – 2020 ar waith.	Cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg gan 12.3% erbyn 2022.	2022	764 o ddisgyblion wedi eu cofrestru ar fynediad i Ddosbarth Derbyn cyfrwng Cymraeg yn 2020/21. Dyma 18.5% o'r holl ddisgyblion sydd wedi eu cofrestru ac yn gynnydd o 8.06% ers 2017/18 (707). 687 o blant saith mlwydd oed (BCC 2) yn mynychu ysgolion gynradd cyfrwng Cymraeg neu'r ffrwd Gymraeg o fewn ysgol gynradd dwy ffrwd yng Nghaerdydd sydd yn cynrychioli 16.3% o'r disgyblion BCC2 sydd wedi eu cofrestri.

					546 o blant tair ar ddeg mlwydd oedd (BCC9) yn mynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd sy'n cynrychioli 14% o'r cyfanswm disgyblion BCC 9 sydd wedi eu cofrestru. **Cyngor Caerdydd**
			Cynyddu canran y dysgwyr sydd yn ennill A*- C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4 i 85% erbyn 2020.	2020	Nid ydym bellach yn adrodd ar trothwy mesur cyfnod allweddol 4 (A*-C, L1, L2, L2+) yn dilyn cyflwyno rheoliadau yn 2017 sy'n nodi ni ddylid cyhoeddi canlyniadau yn is na'r lefel cenedlaethol. **Cyngor Caerdydd**
			Cynyddu nifer y dysgwyr sydd yn astudio'r cwrs Cymraeg Ail Iaith amser llawn i o leiaf 80% erbyn 2020.	2020	Data i'w dderbyn gan Llywodraeth Cymru yng Ngorffennaf 2021. **Cyngor Caerdydd**
			Cynyddu canran carfan blwyddyn 11 sy'n ennill graddau A* - C mewn Cymraeg ail iaith TGAU i 40% erbyn 2020.	2020	Nid ydym bellach yn adrodd ar trothwy mesur cyfnod allweddol 4 (A*-C, L1, L2, L2+) yn dilyn cyflwyno rheoliadau yn 2017 sy'n nodi ni ddylid cyhoeddi canlyniadau yn is na'r lefel cenedlaethol. **Cyngor Caerdydd**

1.3	**Hyrwyddo manteision trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu, a rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc i ddod yn oedolion dwyieithog hyderus.**	Datblygu rhaglen o weithdai a gweithgareddau i blant a phobl ifanc.	Cydlynu dewislen o gyfleoedd gyda'r nod o gynnig 15 bob tymor gan ddenu o leiaf 200 o blant a phobl ifanc.	O Ebrill 2019 ac yn flynyddol wedi hynny.	Prin oedd y cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau wyneb yn wyneb yn Chwarteri 1 a 2 ond rydym wedi darparu amrywiaeth eang o glybiau deniadol i blant a phobl ifanc ac mae dros 1,100 wedi cymryd rhan. Cynhaliwyd nifer o weithdai ar-lein a gweithgareddau cymdeithasol i blant mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg e.e. clybiau drama wythnosol, ioga, disgo/cwis, dawns, grwpiau trafod yn ogystal â gweithgareddau unigol e.e. sesiynau celf, crefftau, blogio, hapchwarae, sgiliau perfformio theatr, colur a gweithdai lluniadu. Roedd nifer o sesiynau rhyngweithiol yn rhan o'n darpariaeth Bwrlwm rhithwir yng ngŵyl Ddigidol Tafwyl ac roedd Llwyfan Ysgolion hefyd – cyfle i blant y ddinas arddangos eu doniau perfformio i gynulleidfa eang yr ŵyl. **Menter Caerdydd**
		Cyflogi Swyddog Ieuenctid i weithio gyda phobl ifanc yn Ysgolion Uwchradd Caerdydd i ddatblygu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg.	Swyddog newydd i fod yn y swydd erbyn Medi 2019.	Medi 2019 – Medi 2020	Penodwyd 5 cennad Cymraeg i gynrychioli'r sector ôl-16 ar draws y flwyddyn academaidd. Mae hon yn fenter newydd i'r Coleg. **Coleg Caerdydd a'r Fro (CCAF).**

		Gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd a lleoliadau addysg uwch i sicrhau cynnydd eglur ar gyfer addysg Gymraeg.	Mynychu nosweithiau a digwyddiadau dewisiadau yn y tair ysgol uwchradd Gymraeg yn ystod y flwyddyn yn ogystal â digwyddiadau sgiliau ymarferol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd.	Erbyn Mai 2020	Mae'r ddarpariaeth hon wedi parhau ar-lein eleni. **CCAF**
1.4	**Cynnig cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.**	Hyrwyddo ein hymrwymiad i addysg Gymraeg a dwyieithrwydd er mwyn gwella cyfraddau cynnydd yn y sector Gymraeg.	Grwpiau strategol i gynnal a datblygu adnoddau, staff a darpariaeth.	Erbyn 9 Medi 2020	Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o is-grwpiau addysg i gefnogi gwaith y Fforwm Addysg Gymraeg a datblygiad y Cynllun Addysg Gymraeg diwygiedig. Mae'r is-grwp Hybu a Marchnata yn canolbwyntio ar gyfraddau dilyniant yn y sector Gymraeg. **Cyngor Caerdydd** Penodi 8 o staff ein cwricwlwm (am 2 awr yr wythnos) i hyrwyddo a datblygu'r cwricwlwm Cymraeg ym mhob maes addysgu ar draws y Coleg. Mae'n gyfle i wella darpariaeth ddwyieithog ac annog mwy o fyfyrwyr i gwblhau mwy o'u gwaith yn Gymraeg. Mae hon yn fenter newydd arall ar gyfer CCAF. **CCAF**

		Cynyddu ymwybyddiaeth cyflogwyr o'r sgiliau Cymraeg sydd gan ddysgwyr pan fyddant yn gadael y coleg a'r gwerth ychwanegol y mae'r sgiliau hyn yn ei rhoi i gyflogwyr.	Partneriaid Caerdydd Ddwyieithog i drefnu / mynychu ffeiriau swyddi ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar nifer y ffeiriau a drefnir neu a fynychir.	O fis Medi 2019	Sesiynau ar-lein i ddisgyblion neu rieni alw heibio i gael gwybod mwy am y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y sector ôl-16 a beth mae sgiliau Cymraeg yn ei olygu yn y gweithle. **CCAF** Mae'r argyfwng Covid 19 wedi cael effaith arwyddocaol ar y nifer o ffeiri swydd a drefnwyd gan y partneriaid a'r cyfleoedd i ddarparu adborth. Disgwylir bydd y partneriaid yn ail-gydio gyda'r ymrwymiadau yma pan bydd y rhwystrau presennol yn galluogi hynny. **Cyngor Caerdydd**
1.5	**Cynyddu darpariaeth gweithgareddau Cymraeg allgwricwlaidd a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiau'r ysgol.**	Parhau i weithio gyda a hyrwyddo strategaeth Iaith Gwaith y Ganolfan Genedlaethol yn ogystal â chynnig cyrsiau Ymwybyddiaeth iaith i staff mewn amryw sefydliadau yng Nghaerdydd.	6 o gyrsiau dwys Iaith Gwaith – dibynnol ar ennill tendrau.	Medi 2019 – Awst 2020	O ganlyniad i argyfwng Covid-19 nid yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi rhyddhau tendrau ar gyfer cyrsiau Iaith Gwaith dwys yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21. **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Cymuned a Seilwaith

CYF	BLAENORIAETH	AMCANION	TARGED	AMSERLEN	DIWEDDARIAD
2.2	**Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob digwyddiad mawr, proffil uchel a gynhelir yng Nghaerdydd, cefnogi digwyddiadau cymunedol Cymraeg sydd eisoes yn bodoli a rhannu arfer da.**	Gweinyddu a chynnal rhwydwaith electronig yn hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg a dwyieithog ledled y ddinas.	Cyrraedd lleiafswm o 7000 o bobl ar draws y ddinas er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau.	O fis Medi 2019 ac yn barhaus wedi hynny.	Mae ein gwasanaeth cylchlythyr digidol (e@chlysur) wedi parhau ac mae ein nifer o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu. Mae nifer y negeseuon, cylchlythyrau, lluniau neu fideos a rennir yn ystod y flwyddyn dros 2000. **Menter Caerdydd**
		Noddi a bod â phresenoldeb cryf yn Tafwyl (Gŵyl gymunedol Gymraeg flynyddol).	Pob partner i adrodd yn ôl i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog	Mehefin 2019 ac yn flynyddol wedi hynny.	Ymgysylltodd dros 25,000 o bobl â Gŵyl Ddigidol Tafwyl yn 2020 ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer gŵyl ddigidol arall yn 2021. **Menter Caerdydd**
		Ceisiadau Trwydded (digwyddiadau) i gynnwys amodau sy'n sicrhau arwyddion a chyhoeddiadau dwyieithog.	Gwiriadau blynyddol ar hap.	O fis Medi 2019	Mae gwiriadau'n parhau i sicrhau bod gofynion dwyieithog yn cael eu gweithredu. Mae nifer fawr o'r gwaith mewn perthynas â thrwyddedu digwyddiadau wedi'i oedi o ganlyniad i argyfwng Covid 19. **Cyngor Caerdydd**
2.3	**Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy i adlewyrchu Caerdydd Ddwyieithog trwy**	Creu adnodd ar-lein i ledaenu Gwybodaeth mewn perthynas â chyd-destun hanesyddol neu	Creu adran ar wefan y Cyngor.	O Ebrill 2020.	Mae'r Adnodd hwn wedi'i gyflwyno drwy blatfform ishare y Cyngor i gefnogi'r Polisi Enwau Strydoedd. Mae gwaith y panel Enwi Strydoedd wedi parhau ac wedi ehangu dros y flwyddyn i

	fecanweithiau Cynllunio sy'n bod eisoes.	ieithyddol enwau strydoedd newydd.			gynnwys parciau a mannau gwyrdd o fewn y ddinas. **Cyngor Caerdydd**
		Cadarnhau rhestr o enwau llefydd safonol yng Nghaerdydd ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.	Cyhoeddi rhestr o bob enw lle yng Nghaerdydd	O Ebrill 2020.	Mae'r gwaith yn parhau ac mae nifer o enwau safonol wedi cael cymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg. Mae gwaith y Panel yn parhau i gefnogi'r polisi Enwau Strydoedd. **Cyngor Caerdydd**
2.4	**Cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a chymunedau sy'n dod i'r amlwg fel ffordd o gyfleu diwylliant Cymreig, a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg**	Menter Caerdydd i arwain ar gynllunio, cydlynu, a hyrwyddo calendr digwyddiadau i gyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd.	Paratoi calendr digwyddiadau a'i ddosbarthu ar ddechrau pob chwarter gan ddechrau ym mis Medi 2019.	O fis Medi 2019	Mae gwasanaeth e@chlysur Menter sy'n hyrwyddo ei weithgareddau a'i ddigwyddiadau yn ogystal â rhoi gwybod i'n dinasyddion am y cyfleoedd amrywiol a gynigir gan ein partneriaid cenedlaethol a lleol. **Menter Caerdydd**
2.5	**Cefnogi'r Hen Lyfrgell, Canolfan Gymraeg Caerdydd, i gynyddu gweithgareddau sy'n estyn allan a datblygu cyfleoedd i arddangos hanes a threftadaeth**	Cynnal Tafwyl bob blwyddyn trwy weithio gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i greu digwyddiad cenedlaethol 9 diwrnod er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth	40,000 o ymwelwyr i'r digwyddiad	Mehefin 2019 ac yn flynyddol wedi hynny	Cynhaliwyd Tafwyl Digidol ar 20 Mehefin a'i ffrydio'n fyw o Gastell Caerdydd gyda dros 25,000 o gyfranogwyr dros y penwythnos. Roedd yr Ŵyl hefyd yn gyfle i gynnig cyflogaeth i nifer o artistiaid a gweithwyr celf llawrydd yn ystod cyfnod eithriadol o heriol i'r sector. **Menter Caerdydd**

	Gymraeg helaeth Caerdydd.	o’r Gymraeg a denu’r cymunedau Cymraeg a’r di-Gymraeg i gymdeithasu ac ymgysylltu â’r Gymraeg, y sîn gerddoriaeth Gymraeg, llenyddiaeth, chwaraeon a diwylliant Cymraeg			

Gwasanaethau Cymraeg a’r Gweithle					
CYF	**BLAENORIAETH**	**AMCANION**	**TARGED**	**AMSERLEN**	**DIWEDDARIAD**
3.1	**Cynyddu nifer/canran siaradwyr y Gymraeg yng Nghyngor Dinas Caerdydd a hwyluso a chefnogi staff rhugl, yn ogystal a staff sy’n dysgu, i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle ac annog sefydliadau partner Caerdydd ddwyieithog i wneud yr un peth.**	Cynnal sesiynau coffi a chlonc wythnosol anffurfiol ar gyfer holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog er mwyn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ar bob lefel i gwrdd ac i ymarfer.		Wythnosol o fis Mehefin 2019 ymlaen	Mae sesiynau bore coffi digidol wedi parhau unwaith yr wythnos ers diwedd mis Mawrth 2020. Cynhelir sesiynau chwarterol gyda siaradwr gwadd hefyd ac mae sesiwn fisol ar gyfer dysgwyr Cymraeg wedi’i chynnal ers mis Hydref. **Menter Caerdydd** Cynhelir bore coffi rhithwir misol sy'n addas i ddysgwyr Cymraeg mewn partneriaeth â Menter Caerdydd gyda siaradwr gwadd gwahanol bob mis. Maen nhw wedi cael eu cynnal ers mis Tachwedd 2020. **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** Cynhelir sesiwn wythnosol Coffi a Chlonc gan Gyngor Caerdydd i gynnig cyfle i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio ac ymarfer yr iaith. Mae adnodd digidol i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg y Cyngor hefyd wedi ei ddatblygu dros Teams a cafwyd y digwyddiad cyntaf ar Ddydd Gwyl Dewi. **Cyngor Caerdydd**

		Cynyddu niferoedd y staff dwyieithog yng Nghyngor Caerdydd i adlewyrchu canran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyieithog i fabwysiadu'r un dull.	Cynyddu nifer y staff yn y Cyngor sydd â sgiliau Cymraeg gan 20% Rhannu arfer gorau gyda chyrff cyhoeddus eraill.	O 2018/19 i 2022 Erbyn Ebrill 2022	Mae nifer y staff dwyieithog sy'n gweithio i Gyngor Caerdydd wedi cynyddu o 523 yn 2018/19 i 837 yn 2020/21. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 60%. **Cyngor Caerdydd**
		Hyrwyddo ein cyrsiau Cymraeg i oedolion (prif ffrwd a chyrsiau haf dwys) yn ogystal â'r Rhaglen Sabothol er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu sefydliadau.	O leiaf 1000 o ddysgwyr ar gyrsiau prif ffrwd yn ogystal â thua 200 ar gyrsiau yn y gweithle.	Haf 2019-20	Mae amrywiaeth o gyrsiau prif ffrwd, cyrsiau yn y gweithle, a chwrs Haf, wedi'u cyflwyno gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ers mis Ebrill 2020. **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
3.2	**Annog sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i gynnig hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob Uwch Reolwr ac i staff.**	Cynnig cyrsiau hyfforddi amrywiol yn y Gymraeg e.e. Cymorth Cyntaf, Iechyd a Diogelwch, Cymwysterau Chwarae Lefel 2 a 3 i bobl Caerdydd.	Darparu o leiaf 6 chwrs hyfforddi'r flwyddyn	O fis Medi 2019 ac yn flynyddol wedi hynny	Er bod darpariaeth arferol ar gael eleni mae'r ddarpariaeth ar gyfer oedolion wedi cynyddu – yn amrywio o glybiau iwcalili a barddoniaeth, Pilates, darlithoedd, sesiynau garddio, cynnal a chadw beiciau, coginio, hanes a chelf. Bydd yr hyfforddiant yn ailddechrau yn 2021/22. **Menter Caerdydd** Mae Academi Cyngor Caerdydd yn darparu nifer o gyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys Seibir-Ddiogelwch, Hawliau Plant, Cyrsiau Busnes,

					ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a gwasanaeth cwsmeriaid. **Cyngor Caerdydd**
		Sicrhau bod staff a rheolwyr Cyngor Caerdydd yn mynychu sesiynau ymwybyddiaeth iaith ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyieithog i fabwysiadu'r un dull	Adrodd yn flynyddol ar niferoedd a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant	Bob blwyddyn	Cwblhaodd 3470 o aelodau staff e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith newydd Cyngor Caerdydd yn 2020/21. **Cyngor Caerdydd**
		Cyngor Caerdydd i sicrhau bod cyrsiau i ddysgwyr Cymraeg a rhai sydd am wella'u Cymraeg ar gael i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyieithog i fabwysiadu'r un dull.	Adrodd yn flynyddol ar niferoedd a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant	Bob blwyddyn	Lansiodd Cyngor Caerdydd ei Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ar 1 Mawrth 2021. Mae'r Strategaeth yn rhoi cyfle i bob un o weithwyr y Cyngor ymgysylltu â hyfforddiant iaith Gymraeg a rhuglder sefydledig yn y Gymraeg a/neu iaith gymunedol fel gofyniad dymunol ar gyfer pob swydd sy'n delio â chwsmeriaid. Ymgysylltodd 167 o aelodau staff y Cyngor â chyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg yn 2020/21. **Cyngor Caerdydd**
3.5	**Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gymraeg.**	Sicrhau y gallwn ddarparu cymaint o Wasanaethau â phosibl yn Gymraeg. Lle nodir bylchau yng ngallu'r gweithlu i ddarparu	Cynyddu niferoedd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â sgiliau Cymraeg gan 20%.	Ebrill 2019 – Mawrth 2022	Darparwyd 3 sesiwn o gyrsiau Cymraeg digidol ar gyfer myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cyrsiau'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y maes gofal cymdeithasol i baratoi ar gyfer defnyddio Gwasanaethau Cymraeg yn y maes gwaith hwn.

		Gwasanaethau Cymraeg dylent gael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg y sefydliad.	Adrodd ar y niferoedd yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg.		**CCAF** Mae Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd a'i ddogfennau canllaw ategol yn darparu canllaw cam wrth gam ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg timau a'r angen am Wasanaethau Cymraeg. Defnyddir yr asesiadau hyn i nodi swyddi Cymraeg hanfodol a llywio penderfyniadau recriwtio a hyfforddi. **Cyngor Caerdydd**
		O fewn ymgyrch Recriwtio Gwaith Cymdeithasol y Cyngor, a'n hymwneud â'r cwrs gradd gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, byddwn yn pwysleisio: a) Pwysigrwydd defnyddio sgiliau Cymraeg ym maes gwaith cymdeithasol; b) Hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael yn y Cyngor i staff sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sydd am ddysgu	Cynyddu niferoedd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â sgiliau Cymraeg gan 20%.	Ebrill 2019 – Mawrth 2022	Mae 10 tiwtor/asesydd yn ein Hadran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dysgu Cymraeg fel rhan o'r cynllun Iaith Gwaith ar gyfer lefelau mynediad 1 a 2. **CCAF**

		neu wella eu sgiliau Cymraeg.			